# Canllawiau a chwestiynau cais Llwybr 1 (2026)

## Ceisiadau am gyllid grantiau mawr (dros £60,000) (ABaAHG ac AU unig)

Diolch am eich diddordeb mewn gwneud cais i Taith Llwybr 1 2026 – Symudedd Cyfranogwyr. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn yn ein cais ac yn rhoi rhywfaint o gyngor ar yr hyn rydyn ni'n edrych am yn eich atebion. Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sydd am wneud cais am fwy na £60,000. Yr unig sectorau sy'n gymwys i wneud cais am grantiau mawr yw Addysg Bellach, Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ac Addysg Uwch. Os ydych yn gwneud cais am lai na hyn, darllenwch y canllawiau a'r cwestiynau yma.

Mae gan bob sector Canllaw Llwybr 1 ei hun. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y canllaw sy'n berthnasol i'ch sector cyn i chi ddechrau eich cais fel eich bod yn deall y Llwybr, a'r hyn yr ydym am ei ariannu. Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth am:

- pwy all wneud cais
- beth allwch chi wneud cais amdano
- pwy all gymryd rhan mewn symudeddau
- cyfraddau grant
- cyllid ychwanegol
- y prosesau ymgeisio, asesu a dyfarnu

Gwnewch yn siŵr hefyd eich bod yn darllen trwy ein strategaeth cyn dechrau cais. Mae'r strategaeth yn sail i bopeth a wnawn yn Taith, ac mae'r cwestiynau cymhwyso yn cyd-fynd â'n strategaeth.

I wneud cais i Lwybr 1, bydd angen i chi gwblhau:

- ffurflen gymhwyster
- cyfrifydd grant
- ffurflen gais

Gellir dod o hyd i ddolenni i'r dogfennau ar-lein, y cyfrifiannell grantiau y gellir eu llwytho a'r adnoddau ategol a gwybodaeth ar wefan Taith.

Mae cyllid Taith ar gyfer Llwybr 1 yn gweithio ar sail gyfradd grant. I wybod faint y gallwch wneud cais amdano, mae'n rhaid i chi gwblhau cyfrifydd grant Taith yn gyntaf, y gellir ei lwytho yma neu oadran cyllideb y prosiect yn y ffurflen gais. Pan fyddwch yn mewnbynnu nifer y cyfranogwyr (dysgwr neu staff), lle rydych am iddynt fynd, am ba hyd, a pha fath o symudedd y byddant yn ei wneud, bydd y cyfrifydd grant yn cyfrifo'n awtomatig faint o arian y gallwch wneud cais amdano.  Mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn i chi ddechrau'r cais fel eich bod yn gwybod a ddylech lenwi'r ffurflen ar gyfer grantiau bach (£60,000 neu lai) neu grantiau mawr (dros £60,000). Os nad ydych yn siŵr, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â thîm Taith ar ymholiadau@taith.cymru. Gallwch hefyd ymweld â gwefan Taith i wylio ein fideos byr ar sut i gwblhau'r cyfrifydd grant.

Rhaid cwblhau a chyflwyno'r holl ddogfennau **cyn y dyddiad cau sef 12pm ar 18 Mawrth 2026**. Os yw llenwi ffurflen gais ar-lein yn anodd i chi am unrhyw reswm, cysylltwch â thîm Taith a byddwn yn trafod opsiynau eraill.

Mae'n bwysig eich bod yn ateb pob cwestiwn yn drylwyr. Er mwyn eich helpu i ddeall yr hyn yr ydym am i chi fynd i'r afael ag ef yn eich atebion, rydym wedi darparu rhywfaint o destun ategol isod nifer o'r cwestiynau i roi mwy o fanylion am yr hyn y dylech edrych i'w gynnwys. Efallai na fydd yr aseswyr yn adnabod eich sefydliad neu rywfaint o'r derminoleg rydych chi'n ei ddefnyddio, felly rydyn ni'n argymell eich bod chi'n gofyn i gydweithiwr neu ffrind ddarllen trwy'ch atebion i sicrhau eich bod wedi mynd i'r afael â phob cwestiwn yn llawn ac yn glir. Mae gennym derfyn uchaf o 400 gair ar gyfer pob un o'r cwestiynau, ond nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu llawer o wybodaeth. Mae pwyntiau bwled fer yn hollol iawn cyn belled â'ch bod chi'n ateb y cwestiwn yn llawn. Peidiwch â phoeni am sillafu neu ramadeg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Llwybr 1 neu os hoffech sgwrs gydag un o dîm Taith am eich cynlluniau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar ymholiadau@taith.cymru.

## Cwestiynau

O fewn Llwybr 1 gallwch wneud cais am naill ai symudedd dysgwyr, symudedd staff, neu'r ddau. Bydd y cwestiynau yn y ffurflen gais yn amrywio yn dibynnu ar ba fathau o symudedd rydych chi'n gwneud cais amdanynt. Er mwyn eich helpu i ddeall pa gwestiynau y disgwylir i chi eu hateb yn y ffurflen gais, ar rai cwestiynau, rydym wedi rhoi seren a gwybodaeth i esbonio a yw'r cwestiwn yn berthnasol i symudedd dysgwyr, symudedd staff, neu'r ddau.

Rydym wedi darparu'r penawdau ar gyfer pob adran o'r cais fel y gallwch weld lle bydd y cwestiynau hyn yn cael eu gofyn yn y ffurflen gais, fel yr isod:

- AMCAN 1 – SICRHAU BOD CYFNEWIDFEYDD YN DARPARU'R EFFAITH FWYAF
- AMCAN 2- ARIANNU PROSIECTAU CYFNEWID DYSGU O SAFON UCHEL

### AMCAN 1 – SICRHAU BOD CYFNEWIDFEYDD YN DARPARU'R EFFAITH FWYAF

**Cwestiwn:**

**Rhowch grynodeb cyhoeddadwy o'ch prosiect, sy'n rhoi trosolwg byr a chlir o'r nodau, y gweithgareddau a'r cyfranogwyr, o leiaf. (Uchafswm 50 gair)**

**Testun cymorth:**

Bydd y crynodeb hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan i arddangos amcanion eich prosiect a'r effaith a gaiff hyn ar y cyfranogwyr a'r dysgwyr. Er nad yw'r crynodeb yn cael ei asesu, mae'n bwysig amlygu pa mor effeithiol fydd eich prosiect.

**Cwestiwn:**

**Beth yw nodau eich prosiect a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â strategaeth Taith a blaenoriaethau eich sefydliad?**

**Testun cymorth:**

Pwrpas Taith yw creu cyfleoedd sy'n newid bywydau dysgwyr a phobl ifanc ledled Cymru trwy gyfnewidiadau dysgu rhyngwladol, gyda ffocws arbennig ar gyfleoedd i bobl o grwpiau

heb gynrychiolaeth ddigonol. Wrth ateb y cwestiwn hwn, gwnewch yn siŵr eich bod yn glir ynghylch yr hyn yr ydych yn bwriadu ei gyflawni, a sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â strategaeth Taith a strategaeth eich sefydliad.

---

*Bydd angen i chi ateb y cwestiwn nesaf os ydych yn gwneud cais am unrhyw **symudeddau dysgwyr***

**Cwestiwn:**

**Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn creu cyfleoedd sy'n newid bywyd i ddysgwyr a phobl ifanc, yn enwedig i'r rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.**

**Testun cymorth:**

Mae'r cwestiwn hwn yn rhoi'r cyfle i chi esbonio pam a sut y bydd cyllid Taith o fudd i'ch dysgwyr/pobl ifanc. Bydd esboniad o rai o'r rhwystrau/heriau y maent yn eu hwynebu, a pham y gallai'r cyfleoedd hyn newid bywyd iddynt, yn helpu i gryfhau eich ateb.

---

*Bydd angen i chi ateb y cwestiwn nesaf os ydych yn gwneud cais am **symudeddau staff yn unig***

**Cwestiwn:**

**Pwrpas Taith yw creu cyfleoedd sy'n newid bywydau i ddysgwyr a phobl ifanc ledled Cymru, yn enwedig y rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Os nad yw dysgwyr yn cymryd rhan yn y prosiect, eglurwch pam nad yw hyn yn bosibl.**

**Testun cymorth:**

Rydym yn deall nad yw'n bob amser yn bosibl i ddysgwyr gymryd rhan, a/neu y gallai fod amgylchiadau lle mai dim ond symudedd staff sy'n fwy addas i rai sefydliadau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn egluro'n glir eich rhesymau dros beidio â chymryd dysgwyr.

---

*Bydd angen i chi ateb y cwestiwn nesaf os ydych yn gwneud cais am unrhyw **symudeddau staff***

**Cwestiwn:**

**Dylai gweithgaredd staff greu manteision uniongyrchol a pharhaol i ddysgwyr a phobl ifanc.**
**Beth fydd yr effaith ar y dysgwyr o symudedd eich staff? Sut fyddwch chi'n sicrhau bod y dysgu'n cael ei rannu gyda dysgwyr, yn enwedig y rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?**

**Testun cymorth:**

Pwrpas Taith yw creu cyfleoedd sy'n newid bywydau i ddysgwyr a phobl ifanc. Mae staff a gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol ym mywydau'r rhai y maent yn eu cefnogi, felly yma mae angen i chi egluro sut y bydd eu cyfranogiad mewn symudedd Taith o fudd i'ch dysgwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn glir am sut y bydd cyfranogiad staff o fudd yn benodol i'r rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

---

*Bydd angen i chi ateb y cwestiwn nesaf os ydych yn gwneud cais am unrhyw **symudeddau ymchwil***

**Cwestiwn:**

**Eglurwch beth fydd effaith eich symudeddau arfaethedig ar y cyfranogwyr ymchwil. Sut byddwch chi'n sicrhau bod ymchwilwyr gyrfa gynnar a myfyrwyr ôl-raddedig yn cael eu cefnogi i gael mynediad at y cyfleoedd hyn?**

**Testun cymorth:**

Dylai symudeddau ymchwil ddarparu cyfleoedd yn bennaf i ymchwilwyr gyrfa gynnar neu fyfyrwyr ôl-raddedig gydweithio, datblygu eu hymchwil, a sefydlu rhwydweithiau a phartneriaethau ymchwil newydd. Os yw staff ymchwil mwy sefydledig yn cymryd rhan mewn symudeddau a ariennir gan Taith, dylen nhw chwarae rhan fentora i helpu ymchwilwyr llai profiadol i ddatblygu eu gyrfa.

---

**Cwestiwn:**

**Mae cyfnewid rhyngwladol yn cynnwys dysgu rhwng unigolion neu grwpiau o Gymru a'r rhai o wlad arall. Sut bydd eich symudeddau arfaethedig yn sicrhau dysgu ystyrlon rhwng cyfoedion rhwng cyfranogwyr o Gymru a gwledydd eraill, gan eu galluogi i rannu profiadau ac ymgysylltu â gwahanol ddiwylliannau?**

**Testun cymorth:**

Wrth ateb y cwestiwn hwn, dylech ddisgrifio sut y bydd cyfranogwyr o Gymru a'ch partneriaid rhyngwladol yn dysgu'n weithredol oddi wrth ei gilydd. Eglurwch pa gyfleoedd fydd ar gyfer cyfnewid dwyffordd, fel gweithgareddau ar y cyd, gweithdai, neu ddigwyddiadau diwylliannol. Dylech ddangos sut y bydd eich symudedd yn hyrwyddo dealltwriaeth gydfuddiannol, dysgu rhyngddiwylliannol, a rhannu syniadau, sgiliau a phrofiadau yn hytrach na bod un grŵp yn arsylwi'r llall yn unig.

---

**Cwestiwn:**

**Pa fesurau penodol fyddwch chi'n gweithredu er mwyn sicrhau bod eich prosiect yn gynhwysol a hygyrch, yn enwedig i gyfranogwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?**

**Cyfeiriwch at:**

- **Hyrwyddo cyfleoedd.**
- **Recrwtio/dewis cyfranogwyr.**
- **Cefnogi cyfranogwyr (cyn, yn ystod ac ar ôl y symudedd).**

**Testun cymorth:**

Sut y byddwch chi'n rhannu a hyrwyddo'r cyfleoedd sydd gennych drwy gyllid Taith i'r rheini yn eich sefydliad? Sut byddwch chi'n dewis cyfranogwyr yn deg? Mae'n bwysig iawn paratoi eich cyfranogwyr ar gyfer eu symudedd cyn iddynt adael Cymru, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi bod dramor, neu sydd ag ychydig o brofiad teithio. Sut byddwch chi'n eu cefnogi tra byddant ar eu symudedd? Mae sioc diwylliant gwrthdro/teimladau o dristwch bod profiad sy'n newid bywyd ar ben, yn gyffredin i gyfranogwyr ar ôl iddynt ddychwelyd, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt lawer o brofiad o deithio neu fod oddi cartref. Beth fyddwch chi'n ei wneud i fynd i'r afael â hyn a chefnogi cyfranogwyr ar ôl iddynt ddychwelyd i Gymru, ac i 'fywyd normal'.

---

**Cwestiwn:**

**SYLWER: Rhaid i o leiaf 25% o'r holl gyfranogwyr symudedd fod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Os nad ydych yn gwneud cais am symudedd dysgwyr ac mae hyn yn golygu na allwch gyrraedd y trothwy hwn, bydd angen i chi ddarparu rhagor o wybodaeth isod.**

**Pa ganran o'ch cyfranogwyr fydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?**

---

*Bydd angen i chi ateb y cwestiwn nesaf os ydych yn gwneud cais am unrhyw **symudeddau staff***

**Cwestiwn:**

**Faint o ddysgwyr fydd yn elwa'n uniongyrchol o symudedd eich staff? (Gallai hyn fod yn sefydliad eang, neu'n benodol i ddosbarth neu grŵp targedig o ddysgwyr)**

---

*Bydd angen i chi ateb y cwestiwn nesaf os ydych yn gwneud cais am unrhyw **symudeddau staff***

**Cwestiwn:**

**Pa ganran o'r dysgwyr hyn fydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?**
**Rhaid i hyn fod o leiaf 25%**

---

## AMCAN 2- ARIANNU PROSIECTAU CYFNEWID DYSGU O SAFON UCHEL

### Cwestiwn:

**Rhowch fanylion am sut a pham rydych wedi dewis y partneriaid rhyngwladol ac eglurwch pam eu bod yn briodol ac yn berthnasol ar gyfer gweithgareddau a chanlyniadau'r prosiect. Lle nad ydych wedi dod o hyd i bartner(iaid) rhyngwladol eto, nodwch eich cynlluniau ar gyfer eu hadnabod a'u hymgysylltu.**

### Testun cymorth:

Os oes gennych bartner rhyngwladol yn ei le, eglurwch beth sy'n eu gwneud yn bartner addas ar gyfer y prosiect a'ch gweithgareddau dewisol. Ydych chi wedi gweithio gyda nhw o'r blaen? Os nad oes gennych chi bartner(iaid) rhyngwladol eto, pa fath o sefydliad(au) ydych chi'n bwriadu gweithio gyda a pham? Sut byddwch chi'n dod o hyd iddynt a sut byddwch yn ymgysylltu â nhw?

---

### Cwestiwn:

**Esboniwch eich rhesymeg y tu ôl i'r dewis o gyrchfan(nau). Dangoswch eich bod wedi ystyried:**

- **gwerth am arian**
- **effaith amgylcheddol e.e. ôl troed carbon a sut y bydd hyn yn cael ei liniaru**
- **effaith ar y cyfranogwr(wyr)**
- **perthnasedd i amcanion y prosiect.**

### Testun cymorth:

Mae Taith yn brosiect byd-eang sydd yn cynnig cyllid ar gyfer teithio ar draws y byd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod cyrchfannau yn cael eu hystyried yn ofalus, yn enwedig o ran yr effaith amgylcheddol. Lle mae cyrchfan ymhell o Gymru, ystyriwch pam mae angen teithio i'r gyrchfan honno i gyflawni eich nodau, yn hytrach na chyrchfan lle mae angen llai o deithio? Pam y bydd y cyfranogwyr yn cael budd arbennig o deithio i'ch cyrchfan arfaethedig, yn hytrach na rhywle gwahanol? A yw eich dewis o gyrchfan yn cynnig gwerth am arian, ac a yw'n berthnasol i nodau eich prosiect?

---

### Cwestiwn:

**Esboniwch sut y byddwch yn rheoli'r prosiect a'r cyllid grant ar gyfer symudedd allanol a mewnol (lle bo hynny'n berthnasol), gan gynnwys:**

- **Rheoli prosiectau o ddydd i ddydd**
- **rheolaeth ariannol**
- **darparu symudiadau**

- **darparu cefnogaeth i gyfranogwyr.**

**Lle mae nifer o sefydliadau wedi'u cynnwys yn y cais, rhowch esboniad clir o rolau pob partner.**

**Testun cymorth:**

Defnyddiwch y blwch hwn i egluro sut y byddwch yn rheoli pob agwedd o reoli a chyflawni prosiectau. A oes pobl benodol yn eich sefydliad a fydd yn gyfrifol am wahanol agweddau, neu a fydd yn cael ei reoli gan un person? Sut y byddwch yn sicrhau bod pob agwedd o'r prosiect – gan gynnwys cynllunio, rheolaeth ariannol, cymorth i gyfranogwyr a darparu'r symudeddau eu hunain, yn cael eu rheoli'n effeithiol?

---

**Cwestiwn:**

**Fyddwch chi'n gweithio gyda darparwr trydydd parti i gyflawni eich prosiect? Darparwr trydydd parti yw sefydliad sy'n trefnu, cydlynu neu hwyluso unrhyw ran o'r prosiect yn gyfnewid am daliad, ac sydd ddim yn gymwys fel sefydliad i wneud cais na bod yn aelod o gonsortiwm.**

**Testun cymorth:**

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio darparwr trydydd parti i helpu i gyflawni eich prosiect, esboniwch pwy ydyn nhw, pa wasanaethau y byddan nhw'n eu darparu, a pham mae eu cyfranogiad yn angenrheidiol. Gallai enghreifftiau gynnwys sefydliadau sy'n trefnu teithio, llety, lleoliadau, hyfforddiant, neu gymorth logistaidd i gyfranogwyr yn gyfnewid am daliad. Ni chaniateir i ddarparwyr trydydd parti ysgrifennu'r cais am gyllid ar gyfer Taith. Cyfrifoldeb y sefydliad sy'n gwneud y cais yn unig yw paratoi a chyflwyno'r cais, gan gynnwys ei holl gynnwys. Am ganllawiau manwl ar rôl darparwyr trydydd parti, cyfeiriwch at adran 7.1.1 o Ganllaw Rhaglen eich sector.

---

**Cwestiwn:**

**Beth yn eich barn chi yw'r prif risgiau i gyflawni'r prosiect a sut y byddwch chi'n rheoli'r rhain?**

**Testun cymorth:**

Gallai hyn gynnwys pethau fel cyfranogwyr yn tynnu allan, heriau i ffeindioi sefydliad partner rhyngwladol, newidiadau mewnol yn eich sefydliad ac ati.

---

**Cwestiwn:**

**Sut fyddwch chi'n monitro cynnydd eich gweithgareddau prosiect, mesur llwyddiant eich prosiect yn gyffredinol a sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu?**

**Testun cymorth:**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn glir yn yr adran hon sut y byddwch yn monitro eich prosiect wrth iddo ddatblygu, a beth fyddwch yn ei wneud i fesur ei lwyddiant. Mae'n bwysig bod unrhyw ddysgu a gewch o fudiad symudeddau Taith (yn enwedig ar gyfer symudedd staff) yn cael ei rannu ar draws eich sefydliad (neu'n ehangach os yn bosibl). Sut byddwch chi'n gwneud hyn?

---

**Cwestiwn:**

**Sut byddwch chi'n sicrhau bod mesurau diogelu/dyletswydd gofal priodol ar waith yn ystod teithiau allanol a mewnol ac yn ystod cyfnewidiadau rhithwir?**

**Testun cymorth:**

Fel rhan o'ch rheolaeth prosiect, mae angen i chi ystyried pa fesurau y byddwch yn eu cymryd i ddiogelu iechyd, lles a hawliau dynol eich cyfranogwyr trwy gydol eich prosiect. Rhowch fanylion ar sut rydych yn bwriadu gwneud hyn ac unrhyw bolisïau sydd gennych ar waith.

---

**Gweithgareddau Prosiect**

*Bydd angen i chi ateb y cwestiwn nesaf os ydych yn gwneud cais am **ymweliad paratoadol***

**Cwestiwn:**

**Ydych chi'n cynllunio ymweliad(au) paratoadol? Rhowch gyfiawnhad byr pam mae angen hyn.**

**Testun cymorth:**

Disgrifiwch yr hyn rydych chi'n anelu at ei gyflawni drwy'r ymweliad a sut y bydd yn eich helpu i gynllunio a chyflwyno'r symudeddau'n effeithiol. Dylech amlinellu pa weithgareddau fydd yn digwydd yn ystod yr ymweliad a sut y bydd yr ymweliad yn sicrhau bod symudeddau'r dyfodol wedi'u trefnu'n dda ac yn ddiogel.

---

Bydd angen i chi ateb y cwestiwn hwn **ar gyfer pob math o symudedd rydych chi'n gwneud cais amdano***

**Cwestiwn:**

**Esboniwch pam eich bod wedi dewis y math hwn o symudedd a sut mae hyn yn delio ag anghenion y cyfranogwyr ac yn cynhyrchu deilliannau dysgu o ansawdd uchel?**

**Testun cymorth:**

Yn y blwch hwn bydd angen i chi esbonio pam mae'r math o symudedd rydych wedi'i ddewis yn addas/briodol ar gyfer eich dysgwyr a/neu staff, sut mae'n mynd i'r afael â'u anghenion a sut y bydd yn galluogi canlyniadau dysgu effeithiol o ansawdd uchel.

---

*Bydd angen i chi ateb y cwestiwn nesaf os ydych yn gwneud cais am **symudedd grŵp***

**Cwestiwn:**

**Rhowch y rhesymeg dros y gymhareb o gyfranogwyr sy'n oedolion sy'n cyd-fynd â dysgwyr ar gyfer pob symudiad grŵp?**

**Testun cymorth:**

Bydd oedolion sy'n gwmni yn cefnogi dysgwyr ar symudedd grŵp ac yn arwain y profiad dysgu. Bydd y gymhareb o oedolion sy'n gwmni i ddysgwyr yn wahanol ar gyfer pob sefydliad ac yn dibynnu ar oedran ac anghenion penodol y dysgwyr sy'n cymryd rhan. Defnyddiwch y blwch hwn i egluro eich rhesymeg y tu ôl i'r rhifau y gofynnwyd amdanynt.

---

*Bydd angen i chi ateb y cwestiwn nesaf **ar gyfer bob gweithgaredd staff rydych yn gwneud cais amdano***

**Cwestiwn:**

**Rhowch gyfiawnhad clir dros nifer y staff a ofynnir amdani ar gyfer y symudedd hwn ac esboniwch sut y bydd hyn yn helpu i gyflawni eich nodau?**

**Testun cymorth:**

Eglurwch pam eich bod wedi dewis nifer y cyfranogwyr staff ar gyfer pob gweithgaredd staff rydych chi'n gwneud cais amdano. Dylech gyfiawnhau sut mae'r niferoedd hyn yn briodol ar gyfer maint, amcanion a gweithgareddau eich prosiect. Dylech amlinellu pam mae pob aelod o staff yn hanfodol a sut byddant yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau dysgu'r prosiect, a sut mae nifer y symudeddau yn cynrychioli gwerth da am arian.

---

**Cynaliadwyedd ac Effaith Ehangach**

**Cwestiwn:**

**Beth fyddwch chi'n ei wneud i liniaru effaith amgylcheddol eich prosiect? Lle nad yw opsiynau teithio gwyrdd yn bosibl, dylech gynnwys manylion arferion cynaliadwy eraill y byddwch yn eu rhoi ar waith.**

**Testun cymorth:**

Defnyddiwch y blwch hwn i egluro popeth y byddwch yn ei wneud i sicrhau bod eich prosiect mor gynaliadwy ag y gall fod. Os ydych chi'n bwriadu defnyddio teithio gwyrdd, rhowch fanylion yma.

---

**Cwestiwn:**

**Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â rhai neu'r cyfan o'r effeithiau ehangach a nodir yn strategaeth Taith. Dyma'r rhain:**

- **hyrwyddo diwylliant, treftadaeth ac iaith Gymraeg**
- **hyrwyddo Cymru fel gwlad eangfrydig, gydweithredol a chroesawgar**
- **ymgorffori dull rhyngwladol yn y sectorau addysg ledled Cymru**
- **ysgogi rhagoriaeth addysgol ac arloesedd i ategu strategaethau presennol Llywodraeth Cymru**
- **datblygu dysgu iaith a dealltwriaeth ryngddiwylliannol ar draws Cymru**